Stonewall

# AMDANO'R ADNODD YMA

## Mae'r adnodd yma wedi ei gynhyrchu gan Stonewall, elusen sydd wedi ei leoli yn y DU ac sy'n sefyll dros rhyddid, ecwiti, a potensial pob person lesbiaidd, hoyw, deurhywiol, traws, cwîar, cwestiynu ac ace (LHDT+).

Mae'r adnodd yma wedi ei gynhyrchu gan Stonewall, elusen sydd wedi ei leoli yn y DU ac sy'n sefyll dros rhyddid, ecwiti, a potensial pob person lesbiaidd, hoyw, deurhywiol, traws, cwîar, cwestiynu ac ace (LHDT+).

Yn Stonewall, dychmygwn byd ble all pobl LHDTC+ ym mhobman byw bywydau llawn. Cawsom ein sefydlu yn Llundain yn 1989, ac yn awr rydym yn gweithio ym mhob wlad y DU a rydym wedi sefydlu partneriaethau ar draws y byd. Dros y tair degawd diwethaf, rydym wedi creu newidiadau trawsffurfiedig ym mywydau pobl LHDTC+ yn y DU, gan helpu ennill hawliau hafal o ran priodas, cael plant, ac addysg cynwysiedig.

Mae ein ymgyrchoedd yn creu newidiadau positif i'n cymunedau, ac mae ein rhaglenni newid cynaliadwy a grymusrwydd yn sicrhau bod pobl LHDTC+ yn gallu ffynnu trwy gydol ein bywydau. Rydym ni'n sicrhau bod y byd yn clywed ac yn dysgu o'n cymunedau, ac bod ein gwaith ni wedi ei seilio yn tystiolaeth ac arbenigedd.

I ddarganfod mwy amdano ein gwaith ni, ewch i www.stonewallcymru.org.uk.

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

Mae Stonewall yn falch i ddarparu wybodaeth, cefnogaeth a cyngor ar cynwysedd LHDTC+; gweithio tuag at byd ble yr ydym i gyd yn rhydd i fyw. Nid yw hyn yn gyfystirio cyngor gyfreithiol, ac nid ydy'n bwriadu cymryd lle cyngor gyfreithiol ar unrhyw pwnc.

# RHYDD I FOD

## STRATEGAETH 2021-25

Stonewall

# STRATEGAETH STONEWALL: 2021-5

**Yn Stonewall, rydyn ni'n sefyll dros bob person lesbiaidd, hoyw, deurywiol, traws, cwiar, cwestiynu, ac ace (LHDTC+).**

**Rydyn ni'n dychmygu byd lle mae pobl LHDTC+ ym mhob man yn rhydd i fod yn nhw eu hunain ac yn gallu byw eu bywydau i'r eithaf.**

**Rydyn ni'n gwybod, fel rhan o ymgyrch fyd-eang dros newid sy'n cynnwys pobl LHDTC+, ein cynghreiriaid, ein teuluoedd, a'n ffrindiau, y byddwn ni'n llwyddo. Gyda'n gilydd.**

Yn ystod y 30 mlynedd ddiwethaf, rydyn ni wedi helpu i greu newid trawsnewidiol ym mywydau pobl LHDTC+ ar draws cymunedau yn y DU. Rydyn ni wedi teithio llwybr o Adran 28, a phan oedd hunaniaethau LHDTC+ wedi'u hatal yn llwyr mewn ysgolion, i bob plentyn yn dysgu am ein bywydau, ein teuluoedd a'n perthnasau fel rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol yn y rhan fwyaf o'r DU.

Mae'r un llwybr wedi mynd â ni o fyd lle roedd ein perthnasau ni'n drosedd, i un lle mae ganddon ni hawliau teg i garu. Ac, i'r rhai sy'n dymuno gwneud hynny, hawliau teg i briodi, neu i gael plant.

Rydyn ni'n falch o bwy ydyn ni, a'r hyn rydyn ni wedi'i gyflawni gyda'n gilydd, ac rydyn ni'n gwybod bod wirioneddol angen mwy o newid.

Ym mhob cymuned yn y DU, a ledled y byd, mae pobl LHDTC+ yn dal i gael eu cam-drin, eu taflu o'u cartrefi, a'u bwlio yn yr ysgol a'r gweithle. Yn rhy aml mae'r sefydliadau a ddylai ein diogelu – ein llywodraethau, ein cymunedau, ein sefydliadau ffydd a'n teuluoedd – yn aros yn dawel, neu yn ein niweidio ni.

Ac i rai pobl LHDTC+, mae'r niwed yma'n arbennig o wael. O hiliaeth i ablaeth, misogynistiaeth i wahaniaethu ar sail dosbarth cymdeithasol, mae pobl groenliw LHDTC+, menywod LHDTC+, pobl LHDTC+ sy'n anabl, y rhai ohonon ni sy'n byw mewn tlodi, sydd â ffydd, a llawer mwy ohonon ni, yn cael ein dal yn ôl a'n gwthio o'r neilltu drwy ein bywydau.

Bydd Stonewall yn parhau i gyd-sefyll a brwydro dros ryddid, tegwch a photensial pob person LHDTC+. Tan ein bod ni'n byw yn y byd rydyn ni'n ei ddychmygu.



# Sut rydyn ni'n gweithio

**Fe'n sefydlwyd ni yn 1989, a bellach rydyn ni'n gweithio ym mhob un o wledydd y DU ac wedi creu partneriaethau ledled y byd. Mae gweithio gyda'n cymunedau, ein partneriaid a'n cynghreiriaid i ddysgu gyda'n gilydd a chefnogi ein gilydd wrth galon ein hymagwedd.**

Mae gwaith ymgyrchu Stonewall yn gyrru newid cadarnhaol mewn agweddau cyhoeddus a pholisi cyhoeddus, gan helpu i drawsnewid profiad dydd i ddydd pob person LHDTC+. Rydyn ni'n lobïo llywodraethau ledled y DU ac yn ehangu hawliau LHDTC+, yn pwyso ar benderfynwyr byd-eang i sicrhau cynnydd, ac yn gweithio gydag amddiffynwyr hawliau dynol ledled y byd i greu newid yn eu gwledydd cartref.

Rydyn ni'n sicrhau bod modd i bobl LHDTC+ ffynnu ar bob cam yn eu bywydau drwy greu rhaglenni newid dwys a pharhaus gyda'r sefydliadau sy'n cael yr effaith fwyaf ar ein bywydau. Rydyn ni'n helpu plant a phobl ifanc LHDTC+ i deimlo'n ddiogel ac yn weladwy drwy ein rhaglenni i ysgolion, colegau, a gwasanaethau plant a phobl ifanc. Mae'r rhaglenni hyn yn cefnogi oedolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i daclo bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd, ac i addysgu mewn ffordd sy'n cydnabod ac yn dathlu hanes LHDTC+.

Rydyn ni wedi bod ar flaen y gad o ran gwneud gweithleoedd yn gynhwysol i bobl LHDTC+ ers dros 15 mlynedd drwy ein rhaglenni Hyrwyddwyr Amrywiaeth a Hyrwyddwyr Amrywiaeth Byd-eang. Rydyn ni'n gwneud chwaraeon yn gêm i bawb sy'n cymryd rhan – fel cyfranogwyr, gwirfoddolwyr, staff neu gefnogwyr – drwy'r ymgyrch lwyddiannus Lasys Enfys, a thrwy rymuso cymunedau ar bob lefel o chwaraeon a gweithgarwch corfforol i hyrwyddo cynhwysiant LHDTC+.

Mae tystiolaeth ac arbenigedd yn sail i'n gwaith. Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod y byd yn clywed ac yn dysgu gan gymunedau LHDTC+. Ynghyd â chomisiynu a chynnal ymchwil newydd, a gwneud y defnydd gorau o ddata sy'n bodoli ar bobl LHDTC+, rydyn ni'n gwrando ar gymunedau LHDTC+ ac yn eu cynnwys mewn ymchwil am eu bywydau, ac yn gweithio ochr yn ochr â sefydliadau cymunedol i ddysgu mwy am y materion sy'n effeithio arnyn nhw.

Ac rydyn ni'n ymroddedig i rymuso pobl i greu newid yn eu cymunedau eu hunain. Drwy annog pobl LHDTC+ a'u cynghreiriaid i gamu i'r adwy fel arweinwyr, modelau rôl ac ymgyrchwyr, rydyn ni i gyd yn cymryd cam mawr – o ysgol i ysgol, o weithle i weithle, o gymuned i gymuned – tuag at fyd lle mae pobl LHDTC+ bob man yn rhydd i fod.



# Rhyddid

**Mae hawliau dynol yn adrodd stori rymus am y math o fyd rydyn ni'n dewis byw ynddo, a'r math o fyd rydyn ni am ei adeiladu. Rydyn ni'n dychmygu byd lle bydd gan bobl LHDTC+ yr un hawliau â phawb arall. Lle mae cyfraith ein gwledydd cartref, a gwledydd yn rhyngwladol, yn ein hamddiffyn ni rhag niwed ac yn caniatáu i ni fyw yn agored, yn ddiymddiheuriad, ac yn falch.**

Byddwn ni'n brwydro dros ryddid pobl LHDTC+ ym mhobman. Ochr yn ochr â'n partneriaid byd-eang, byddwn ni'n taclo'r ymgyrch wrth-draws ddinistriol. Byddwn ni'n adeiladu ac yn diogelu fframweithiau hawliau dynol fel bod gan bobl LHDTC+ yr hyn sydd ei angen arnon ni i ddiogelu ein bywydau a'n cymunedau.

**Yn ystod y pedair blynedd nesaf, gan weithio gyda phartneriaid yn y DU a'r byd, bydd Stonewall yn gwneud yr achos dros y canlynol:**

**1** Gwaharddiad a gaiff ei orfodi â chyfraith ar therapi trosi ledled y DU, gyda chefnogaeth i oroeswyr a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol rheng flaen. Mae arferion therapi trosi wedi'u gwreiddio mewn ffieidd-dod tuag at bobl LHDTC+, a'r celwydd bod modd i'n cyfeiriadedd rhywiol neu ramantus, neu ein rhywedd, newid. Mae'n achosi niwed sy'n para oes i oroeswyr, a does dim lle iddo mewn cymdeithas sy'n gwerthfawrogi ei dinasyddion LHDTC+.

**2** Deddfau troseddau casineb a iaith casineb yn y DU sy'n diogelu cymunedau LHDTC+, ynghyd ag eirioli dros ddulliau adferol. Byddwn ni hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid rhyngwladol i ddatblygu llwyfannau ar gyfer adrodd am droseddau casineb yn ddienw, gan ddefnyddio'r data i bwyso am newidiadau i'r gyfraith ac i arferion heddlua.

**3** Canllawiau gwell gan Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid (UNHRC) ar ddull penderfynu ar geisiadau am loches gan bobl LHDTC+, a chanlyniadau mwy teg i ffoaduriaid LHDTC+ yma yn y DU. Ledled y byd, mae ffoaduriaid LHDTC+ yn peryglu eu bywydau a'u bywoliaeth wrth ffoi rhag erledigaeth, a hynny ond i wynebu amheuaeth a chreulondeb lle dylent gael eu croesawu.

**4** Cydnabyddiaeth gyfreithiol gynhwysol sy'n parchu ac yn diogelu pwy ydyn ni, a'n cydberthnasau. Er enghraifft, dylai fod modd newid dogfennau hunaniaeth yn hawdd – boed yn dystysgrifau geni, pasbortau, neu drwyddedau gyrru – er mwyn adlewyrchu hunaniaethau pobl draws, gan gynnwys hunaniaethau anneuaidd. A dylai fod modd cydnabod perthynas cyplau a rhieni LHDTC+ ar bob dogfen swyddogol.



# Tegwch

**Pan fyddwn ni'n meddwl am degwch, rydyn ni'n dychmygu byd lle mae pob person LHDTC+ yn profi cyfiawnder. Mae hynny'n golygu nid yn unig cyfle cyfartal, ond canlyniadau cyfartal. Rydyn ni'n cydnabod bod canlyniadau cyfartal yn edrych yn wahanol i bob un ohonon ni, a bod llawer ohonon ni'n wynebu gwahanol rwystrau yn ein bywydau yn seiliedig ar ein hunaniaethau a'n profiadau.**

Mae defnyddio ymagwedd deg yn golygu cydnabod a mynd i'r afael ag anghenion penodol ein cymunedau amrywiol, nid yn unig drwy ein geiriau, ond drwy ein gweithredoedd. Byddwn ni'n gweithio i ddeall a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n arbennig o amlwg ymhlith aelodau hŷn ein cymuned, menywod LDTC+, pobl draws, pobl ddeurywiol, pobl groenliw, pobl sydd â ffydd, sy'n anrhywiol ac yn aromantig, sy'n anabl, yn byw mewn tlodi, neu sydd o gefndir dosbarth gweithiol.

Drwy feithrin perthnasau dwfn ar draws ein hymgyrch ac y tu hwnt iddi, byddwn ni'n canolbwyntio ein rhaglenni newid a'n gwaith ymgyrchu ar daclo rhwystrau strwythurol sy'n dal pobl LHDTC+ sydd wedi'u hymyleiddio yn ôl drwy gydol eu bywydau. Byddwn ni'n gweithio mewn partneriaeth ac yn gweithredu mewn undod â chymunedau sy'n wynebu niwed, gwahaniaethu, ac annhegwch drwy ein holl waith.

**Yn ystod y pedair blynedd nesaf, gan weithio gyda phartneriaid yn y DU a'r byd, bydd Stonewall yn gwneud y canlynol:**

1. Ymgyrchu dros ofal iechyd hygyrch o ansawdd uchel i bob person LHDTC+. Mae angen brys am gefnogaeth iechyd meddwl well, ac mae'n rhaid i'r gefnogaeth honno fod yn berthnasol i'n hanghenion, ein profiadau, a'n hunaniaethau gwahanol. Mae pobl draws yn haeddu gofal iechyd yn ymwneud â thrawsnewid sy'n gadarnhaol ac yn amserol, ac sy'n defnyddio dull yn seiliedig ar yr unigolyn, ynghyd â gofal iechyd cyffredinol gan feddygon sy'n wybodus am fywydau a hunaniaethau traws.

2. Sicrhau ein bod ni'n cefnogi ac yn gweithio ochr yn ochr mewn modd priodol â phobl o liw LHDTC+, sydd wedi bod yn arloeswyr yn yr ymgyrch LHDTC+ erioed, ac y dylai eu gwaith gael ei gydnabod, ei ddathlu, a'i ddarparu ag adnoddau digonol. Byddwn ni'n parhau i feithrin perthnasau gydag arweinwyr ac ymgyrchwyr ar draws cymunedau, a gweithio mewn partneriaeth agos gyda Pride Du gwledydd Prydain.

3. Meithrin cysylltiadau cryf gyda chymunedau ffydd cynhwysol i helpu pobl LHDTC+ â ffydd i ffynnu. Byddwn ni hefyd yn herio gwahaniaethu yn erbyn pobl LHDTC+ sy'n deillio o grefydd drwy gefnogi addysg LHDTC-gynhwysol mewn ysgolion, ac ymgyrchu i wahardd therapi trosi.

4. Creu sail dystiolaeth gref i gefnogi gwaith ymgyrchu sy'n taclo'r anghydraddoldebau dwfn yn ein cymunedau. Byddwn ni'n gwneud hyn mewn partneriaeth â sefydliadau ac arweinwyr mewn cymunedau lleol sydd eisoes yn gwneud y gwaith hwn yn ein trefi a'n dinasoedd. Byddwn ni'n gwneud y mwyaf o'n rhwydweithiau a'n hadnoddau i gefnogi eu cyfeiriad, eu hanghenion, a'u blaenoriaethau.

5. Cefnogi pobl LHDTC+ drwy eu bywydau. Byddwn ni'n canolbwyntio ar sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael addysg LHDTC-gynhwysol, a bod oedolion LHDTC+ yn cael eu cefnogi mewn perthnasau teuluol ac wrth ffurfio teuluoedd eu hunain, waeth beth yw ein rhywedd, ein rhywioldeb, na'n cyfeiriadedd rhywiol neu rhamantus. Bydd pobl hŷn yn cael eu cynrychioli yn ein holl ymgyrchoedd ac adnoddau, ac yn cael eu clywed wth i ni gefnogi ymgyrchoedd ar gyfer gofal LHDTC-gynhwysol i bobl hŷn.



# Potensial

## Rydyn ni'n credu bod gan bobl LHDTC+, ledled y byd ac ar bob cam o'n bywydau, botensial diderfyn.

Rydyn ni'n dychmygu byd lle mae pob un ohonon ni'n falch o bwy ydyn ni, boed ni allan i'r byd neu i neb ond ni'n hunain. Rydyn ni'n dychmygu ein balchder yn ein gyrru ni i ddefnyddio ein potensial sut bynnag hoffen ni – boed hynny drwy ffynnu yn ein gyrfaoedd, meithrin ein creadigrwydd, byw fel hoffen ni, magu teulu, neu deimlo'n rhan go iawn o'n cymunedau. Rydyn ni am i bob person LHDTC+ nid yn unig freuddwydio'n fawr, ond i fod â'r adnoddau angenrheidiol i wireddu ein breuddwydion.

**Yn ystod y pedair blynedd nesaf, gan weithio gyda phartneriaid yn y DU a'r byd, bydd Stonewall yn gwneud y canlynol:**

**1** Ehangu ein rhaglenni grymuso fel bod modd i fwy o bobl LHDTC+ a'u cynghreiriaid gamu i'r bwlch fel arweinwyr, modelau rôl, ac ymgyrchwyr yn eu cymunedau nhw. Rydyn ni'n credu, pan fydd unigolion yn rhannu eu straeon, eu sgiliau, a'u grym gyda'r bobl o'u cwmpas, mai buan y mae cynnydd araf yn troi'n ymgyrch rymus dros newid.

**2** Ehangu a gwella ein rhaglenni gweithle ledled y byd. Drwy ein Hyrwyddwyr Amrywiaeth a'n Hyrwyddwyr Amrywiaeth Byd-eang, byddwn ni'n parhau i greu newid mewn sefydliadau – tan fod pob person LHDTC+ yn cael ei dderbyn a'i ddathlu yn y gwaith, ble bynnag rydyn ni'n gweithio. Byddwn ni hefyd yn cynyddu ein dealltwriaeth o beth mae cynhwysiant ystyrlon yn ei olygu i bobl LHDTC+ sy'n gweithio ar draws ystod o sectorau ac yng nghyd-destunau gwahanol wledydd.

**3** Hyrwyddo cynhwysiant LHDTC+ ar draws ysgolion a cholegau. Mae plant a phobl ifanc LHDTC+ yn haeddu addysg sy'n adlewyrchu pwy ydyn nhw – fel bod modd iddyn nhw dyfu i fod yn oedolion balch sy'n sicr o'u hunain. Byddwn ni'n parhau i wella cynhwysiant drwy weithio gyda sefydliadau addysgol ledled y DU. Byddwn ni'n darparu hyfforddiant ac adnoddau e-ddysgu i weithwyr proffesiynol ym maes addysg, ynghyd ag ehangu ein rhaglenni Addysg a Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.

**4** Ymgyrchu dros gynhwysiant LHDTC+ ar draws chwaraeon ledled y byd. Dylai pob person LHDTC+ deimlo'n gyfforddus ac yn hyderus yn cymryd rhan yn y chwaraeon a'r gweithgarwch corfforol maen nhw'n eu hoffi – boed hynny ar lawr gwlad neu ar lefel elitaidd, ac unrhyw le rhwng y ddau. Er mwyn gwireddu hyn, byddwn ni'n adeiladu ar lwyddiant yr ymgyrch Lasys Enfys, yn dwysáu ein gwaith ar gynhwysiant LHDTC+ mewn chwaraeon cymunedol a datblygiad chwaraeon, ac yn hyrwyddo cynhwysiant traws mewn partneriaeth â chyrff chwaraeon cenedlaethol a rhyngwladol.

**5** Cefnogi Pride yn ei holl ffurfiau. Ar gyfer pobl LHDTC+ ledled y byd, mae digwyddiadau Pride yn hollbwysig. Mae llawer ohonon ni'n cofio grym ein Pride cyntaf, a'r teimlad o fod yn rhan o gymuned enfawr, amrywiol a llawen. Bydd Stonewall yn parhau i gefnogi a chymryd rhan mewn digwyddiadau Pride cymunedol ledled y DU. Oherwydd mae gan bob person LHDTC+ hawl i brotestio, dathlu, a chysylltu mewn gofodau diogel a chefnogol.



# Meithrin Stonewall

**Dim ond drwy sgiliau, creadigrwydd ac ymroddiad ein staff, ein hymddiriedolwyr, a'n gwirfoddolwyr y gallwn ni newid y byd i bobl LHDTC+. Byddwn ni'n recriwtio unigolion dawnus sy'n adlewyrchu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu, ac yn creu rolau lle mae pawb yn deall yr effaith maen nhw'n ei chael. Byddwn ni'n cefnogi ein pobl i wneud eu gorau, ac i ddysgu ac i dyfu.**

Byddwn ni'n gofalu'n benodol ein bod ni'n blaenoriaethu cydraddoldeb hil a chynhwysiant traws yn y ffordd rydyn ni'n gweithio, gydag ymrwymiadau a gweithredoedd a fydd yn ein helpu ni i ganolbwyntio ar wella ein diwylliant a'n harferion, a datblygu tegwch yn Stonewall ei hunan. Byddwn ni hefyd yn ceisio cynnydd pellach ar gynhwysiant deurywiol ac ace yn yr elusen.

Yn ystod oes y strategaeth yma, byddwn ni hefyd yn meithrin ein systemau cefnogaeth. Mae hyn yn golygu cyflwyno meddalwedd newydd sy'n cefnogi ein gweithrediadau, lansio brand a gwefan newydd, a chreu gofodau gweithio croesawgar ar gyfer ein timau yng Nghymru, yr Alban a Lloegr.

# Ymunwch â ni

**Ydyn ni'n dychmygu'r un byd?**

Os gallwch chi ddychmygu byd lle mae rhyddid, tegwch a photensial diderfyn i bob person LHDTC+, rydyn ni am i chi sefyll gyda ni.

Os ydych chi wedi'n cefnogi ers 1989; os mai nawr rydych chi'n dod allan; os ydych chi'n dymuno bod yn hyrwyddwr ar gyfer eich ffrindiau, perthnasau neu gydweithwyr LHDTC+; os ydych chi'n pryderu am gynnydd grwpiau casineb gwrth-LHDTC+; os ydych chi'n teimlo eich bod wedi cael eich diystyru ganddon ni yn y gorffennol; os ydych chi'n dymuno camu i'r adwy fel model rôl neu arweinydd - allwn ni ddim creu'r byd rydyn ni'n ei ddychmygu, y byd mae ein cymunedau'n ei haeddu, hebddoch chi. Ymunwch â ni.

SEFYLL Â PHAWB

**Dysgwch sut y gallwch ein cefnogi yn www.stonewall.org.uk/donate**



# RHYDD I FOD

## STRATEGAETH 2021-25

Credyd delweddau: Pob ffotograffiaeth gan Ally Schmaling - www.allyschmaling.com

**Stonewall Cymru, Transport House, 1 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9SB**

cymru@stonewall.cymru - stonewall.cymru

Stonewall Equality Ltd. Elusen gofrestredig / Registered Charity 1101255 (Cymru a Lloegr / England and Wales) SC039681 (Yr Alban / Scotland) Rhif cwmni / Company Registration No. 02412299 Rhif TAW / VAT No 862 9064 05